**Gofal plant i weithwyr allweddol yng Ngwynedd**
(Cyhoeddwyd 20 Mawrth 2020)

Yn dilyn cyhoeddiad y llywodraeth y bydd pob ysgol ar gau am gyfnod amhenodol o 20 Mawrth, mae Cyngor Gwynedd yn gwneud trefniadau i ddarparu gofal plant ar gyfer rhieni sy'n weithwyr allweddol ac ar gyfer plant bregus y sir.

O ddydd Llun ymlaen, bydd ysgolion yn cynnig gofal i blant y gweithlu allweddol canlynol:
Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol;
Lluoedd arfog;
Staff ysgolion a staff gofal plant;
Gweithwyr cartrefi gofal;
Gweithwyr cymdeithasol;
Swyddogion yr heddlu, cynnal y gymuned, staff sifil;
Swyddogion carchar neu staff prawf (*probation*) eraill;
Swyddogion tân;
Cynllunwyr argyfwng awdurdod lleol;
Swyddogion iechyd yr amgylchedd;
Ffermwyr a phobl sydd yn cynhyrchu bwyd;
Swyddogion traffig yr Asiantaeth Priffyrdd;
Staff Llywodraeth a Llywodraethol Leol sydd wedi eu hadnabod gan eu hadrannau fel gweithwyr allweddol yn y cyfnod hwn.
**(Bydd y trefniadau yn cael eu hadolygu yn rheolaidd.)**

Bydd y Cyngor yn adolygu'r trefniadau wrth i'r sefyllfa ddatblygu dros yr wythnosau nesaf ac yn ystyried os bydd angen addasu wrth i bethau newid yn unol â chyngor Llywodraeth Cymru.

Dywedodd Garem Jackson, Pennaeth Addysg Cyngor Gwynedd: "Mae'r sefyllfa bresennol yn un ddigynsail ac rydym yn gweithio yn agos gyda phartneriaid yn lleol a chenedlaethol i ymateb.

"Fel rhan o'r ymrwymiad yma, rydym yn paratoi i allu darparu gwasanaethau gofal plant o fewn ein hysgolion er mwyn sicrhau parhad gwasanaethau allweddol. Mae'n bwysig tanlinellu nad disodli'r gwasanaeth gan ddarparwyr gofal plant preifat ydi bwriad y gwasanaeth, ond yn hytrach cynyddu'r capasiti pan fydd ysgolion ar gau am gyfnod amhenodol.

"Mae ysgolion eisoes wedi bod mewn cyswllt gyda rhieni ac mae trefniadau ar waith i ddechrau'r ddarpariaeth gofal o ddydd Llun, 23 Mawrth."

Bydd y gofal yn cael i ddarparu yn yr ysgol ble mae'r plant wedi cofrestru fel disgyblion. Gellir dod a phecyn bwyd, neu gellir talu am becyn bwyd gan yr ysgol i'r plant.

Disgwylir i'r gwasanaeth fod ar gael bump diwrnod yr wythnos rhwng 8am a 5pm o ddydd Llun, 23 Mawrth 2020.

Manylion llawn y drefn:
Mae Llywodraethau'r DU a Chymru wedi rhoi arweiniad clir ar hunan-ynysu, ynysu'r teulu a phellhau'n gymdeithasol.

Dyma pam hefyd y mae Llywodraethau'r DU a Chymru wedi gofyn i rieni/warcheidwaid gadw eu plant gartref, lle'n bosib, ac wedi gofyn i ysgolion aros yn agored fel darpariaeth gofal i'r plant hynny y mae'n angenrheidiol iddynt fynychu.

Mae'n bwysig bod ysgolion a sefydliadau addysg eraill yn parhau i fod yn fannau diogel i blant, ac mae'n rhaid i ni flaenoriaethu iechyd ein staff. Y lleiaf o blant sy'n teithio i'r ysgol, ac y lleiaf o blant sydd yn ein hysgolion, yr isaf y bydd y risg o'r firws hwn yn lledaenu ac yn heintio unigolion bregus.

**Darpariaeth ofal**
Mae gofyn felly i ysgolion barhau i ddarparu gofal i nifer cyfyngedig o ddisgyblion – plant sy'n fregus a phlant sydd â rhieni sy'n hanfodol yn yr ymateb lleol i COVID-19 a phlant na ellir gofalu amdanynt yn ddiogel yn y cartref.

**Plant gweithwyr allweddol**
Mae'r rhieni sydd â'u gwaith yn hanfodol i'r ymateb i COVID-19 yn cynnwys y rhai sy'n gweithio mewn gofal iechyd a chymdeithasol, ac mewn sectorau allweddol eraill. Efallai y bydd yn bosib i nifer o rieni sy'n gweithio yn y sectorau hyn sicrhau y cedwir eu plant gartref. Os yw'n bosib' gofalu am y plentyn yn ddiogel yn y cartref dylid gwneud pob ymdrech posib' i wneud hynny.

Yr egwyddorion allweddol i'w dilyn yw:
Dylai unrhyw blentyn y gellir ei gadw gartref yn ddiogel aros yno.
Os oes angen cymorth arbenigol ar blentyn, os yw'n fregus neu os oes ganddo riant sy'n weithiwr hanfodol, disgwylir y bydd gofal yn eu hysgol leol ar gael iddynt.
Ni ddylai rieni ddibynnu ar ofal plant gan unigolion sydd yn y grwpiau bregus a adnabyddir.
Dylai rhieni wneud popeth y gallent i sicrhau bod plant yn cadw at yr un egwyddorion pellhau'n gymdeithasol ag oedolion.

Os yw eich plentyn angen mynediad at y ddarpariaeth ofal o 23.3.20 (dydd Llun i ddydd Gwener 8yb-5yh) o ganlyniad i riant yn cwrdd â'r meini prawf gweithwyr allweddol uchod, rhowch wybod i'r ysgol os gwelwch yn dda. Gofynnwn yn garedig i chi ddarparu cinio addas iddynt lle'n bosib ond pe na fyddai hyn yn bosib bydd pecyn bwyd ar gael.

Rydym yn ddiolchgar iawn i athrawon a gweithwyr mewn ysgolion ar draws Gwynedd am barhau i ddarparu gofal i blant gweithwyr allweddol. Mae hyn yn rhan hanfodol o'n hymdrechion i oresgyn yr afiechyd hwn.

**Dysgwyr "bregus"**
Gall plant a ystyrir fel rhai bregus hefyd gael mynediad at y ddarpariaeth uchod. Os oes gennych Weithiwr Cymdeithasol dynodedig neu os ydych yn agored i Wasanaethau Plant ac Oedolion, rydych yn cael eich ystyried eich bod mewn grŵp "bregus". Rydym yn erfyn arnoch felly i drafod presenoldeb ysgol gyda'ch gweithiwr/Gweithiwr Cymdeithasol dynodedig.

**Dysgwyr sydd â hawl i Brydau Ysgol am Ddim**
Nid yw dysgwyr sydd â hawl i Brydau Ysgol am Ddim o reidrwydd yn gymwys am y ddarpariaeth gofal yn awtomatig (cyfeiriwch at y diffiniad uchod ynglŷn â'r hawl).
Byddwn yn rhoi mesurau tymor byr ar waith i sicrhau y cyfarfyddir ag anghenion dysgwyr Prydau Ysgol am Ddim mewn ffordd hyblyg. O'r wythnos nesaf (wythnos yn dechrau ar y 23.3.20), darperir pecyn bwyd i'r holl blant/pobl ifanc sydd â hawl i Brydau Ysgol am Ddim. Yn y tymor byr, darperir hyn yn ysgol arferol y plentyn i'w gasglu yn ystod amser cinio arferol yr ysgol. Fe all plant uwchradd sydd yn gymwys am bryd ysgol am ddim nôl eu pecyn bwyd o'r ysgolion cynradd pe byddai angen.
Rydym yn deall bod pawb wedi profi amseroedd o bryder arwyddocaol yn y dyddiau a'r wythnosau diwethaf. Rwy'n gwerthfawrogi'r ffaith hon yn llawn ac rwy'n ddiolchgar iawn i chi am eich amynedd wrth i faterion gael eu hegluro.

**Childcare key workers in Gwynedd**
(Published 20 March 2020)

Following the government's announcement that all schools will be closed indefinitely from 20 March, Gwynedd Council is making arrangements to provide childcare for the children of parents who are key workers and for vulnerable children in the county.

From Monday, childcare will be provided if a parent works in one of these key sectors:

- NHS;
- Armed services;
- School staff and child care staff;
- Care home workers;
- Social workers;
- Police, community and civil staff;
- Prison officers and probation officers;
- Fire officers;
- LA emergency planners;
- Environmental health officers;
- Farmers and those who are responsible for food production;
- Highways Agency traffic officers;
- Government and Local Government staff that have been identified by their departments as key workers during this period.

(These arrangements will be reviewed on a regular basis)

The Council will review the arrangements as the situation develops over the coming weeks and consider whether arrangements need to be adjusted as things change in line with Welsh Government advice.

Garem Jackson, Gwynedd Council Head of Education said: “The current situation is unprecedented and we are working closely with partners locally and nationally to respond.

“As part of this commitment, we are preparing to be able to provide childcare services within our schools to ensure the continuation of key services. It is important to underline that the service is not intended to replace the service from private childcare providers, but to increase capacity when schools are closed for the time being.

"Schools have already been in contact with parents and arrangements are in place to start care provision from Monday, 23 March."

The care will be provided at the school where the children are registered as pupils. Children will need to bring a packed lunch, or alternatively a packed lunch can be purchased from the school.

The service is expected to be available five days a week between 8am and 5pm from Monday, 23 March 2020.

Full details of the arrangements:

The UK and Welsh Government have given clear guidance on self-isolation, household isolation and social distancing.

This is also why the UK and Welsh Governments have asked parents/carers to keep their children at home, wherever possible, and asked schools to remain open as care provision only for those children who absolutely need to attend.

It is important that schools and other educational establishments remain safe places for children, and we must prioritise the health of our staff. The fewer children who go to school, and the fewer children in our schools, the lower the risk that this virus can spread and infect vulnerable individuals.

**Care provision**
Schools have, therefore, been asked to continue to provide care for a limited number of children - children who are vulnerable and children whose parents are critical to the local COVID-19 response and cannot be safely cared for at home.

**Children of "key" workers**
Parents whose work is critical to the COVID-19 response include those who work in health and social care and in other key sectors. Many parents working in these sectors may be able to ensure their child is kept at home. Every child who can be safely cared for at home should be.

The key principles to be followed are:

1. Children who can be kept at home safely should remain at home.
2. If a child needs specialist support, is vulnerable or has a parent who is a critical worker, then care in your local school will hopefully be available for them.
3. Parents should not rely on childcare from individuals in the recognised vulnerable groups.
4. Parents should also do everything they can to ensure children observe the same social distancing principles as adults.

If your child requires access to the care provision as of 23.3.20 (Monday to Friday 8am-5pm) as a result of a parent meeting the above key worker criteria, please inform the school. We kindly ask that you provide them with a suitable lunch where possible, but if this is not possible a packed lunch will be available.

We are grateful for the work of teachers and workers in schools for continuing to provide care for the children of key workers. This is an essential part of our local effort to combat this disease.

**"Vulnerable" learners**
Children considered as vulnerable can also access the above provision. If you have an allocated Social Worker or are open to Children and Family Services i.e. Team Around the Family, you are considered to be in a "vulnerable" group. We therefore urge you to discuss school attendance with your allocated worker/Social Worker.

**Learners eligible for Free School Meals**
Learners eligible for Free School Meals do not necessarily qualify for the care provision automatically (please refer to the above definition regarding eligibility).

We will put in place short-term measures to ensure the needs of Free School Meals learners can be met in a flexible way. From next week (week beginning 23.3.20) a lunch pack will be provided to all children/young people who are eligible for Free School Meals. In the short-term this will be provided at the child's usual school and will be available for collection during the school's usual lunch time.